

Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru Rhagfyr 2019

Dyma'r diweddaraif mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ymgynghoriadau a chynlluniau diweddaraif.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein [calendr i ddod](#).

Yr economi a'r farchnad lafur

Yn ogystal â'r diweddariadau misol i'n [hystadegau economaidd allweddol](#), mae'r diweddariadau eraill yn cynnwys ystadegau ar [gyflogaeth gweithle](#), [enillion cyfartalog a'r oriau a weithiwyd](#), [proffiliau rhanbarthol marchnad lafur ac economaidd](#), [allforion](#), [aelwydydd di-waith](#), [teuluoedd un rhiant a deiliadaeth tai](#), [gwariant busnes ar ymchwil a datblygu](#), [demograffeg busnes](#), [dangosyddion allbynnau tymor byr](#) a [chynnyrch domestig gros \(CDG\)](#).

Yr amcangyfrif o CDG yw'r ail mewn cyfres arbrofol newydd. Fel cysyniad, mae CDG yn debyg i'r dangosyddion allbynnau tymor byr (DATB) felly rydym wedi dechrau casglu barn er mwyn ein helpu i asesu p'un a oes angen llunio'r ddwy gyfres o hyd ai peidio. Os ydych yn defnyddio'r naill ffynhonnell neu'r llall hoffem glywed gennych. Yn benodol:

- Sut rydych yn defnyddio'r ystadegau?
- Pa mor bwysig ydynt i chi?
- A oes enghreifftiau lle rydych yn defnyddio DATB ond na fydddech yn gyfforddus yn defnyddio CDG?

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch ystadegau.economi@llyw.cymru

Addysg

Yn ddiweddar, gwnaethom gyhoeddi ein datganiadau blynyddol ar [Lwfansau Cynhaliath Addysg Grantiau Dysgu Llywodraeth Cymru \(addysg bellach\)](#)

Ym mis Hydref, gwnaethom gyhoeddi ein diweddariad chwarterol ar [nifer y bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant \(NEET\)](#). Hefyd, ym mis Hydref, cyhoeddwyd ein datganiad blynyddol ar [Waith leuenctid](#), sy'n cwmpasu pethau fel nifer yr aelodau cofrestredig, prosiectau a chyllid.

Ym mis Tachwedd, cafodd ein hystadegau diweddaraif ar [raglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd](#) eu cyhoeddi, a ategir gan ddangosfwrdd rhyngweithiol.

Yr amgylchedd a thai

Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 (ACTC)

Ym mis Awst, gwnaethom gyhoeddi dadansoddiad manwl o [amcangyfrifon Tlodi Tanwydd ar gyfer Cymru 2018](#) ac ym mis Hydref gwnaethom gyhoeddi adroddiad [Effeithlonrwydd Ynni Anheddau](#) a [thablau](#) cysylltiedig. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar Gymhorthion ac addasiadau, a hygyrchedd y stoc anheddau, yn y flwyddyn newydd.

Mae'r gwaith o sicrhau bod y set o ddata ACTC nad oedd yn ddatgelol, sydd ar gael ar Archif Data'r DU, yn mynd rhagddo, gyda data manylach ar gael yn uniongyrchol oddi wrth dîm ACTC. Bwriadwn ddarparu data ACTC ar SAIL fel bod modd i ymchwilyr gael gafael ar ddata wedi'u hanonymaiddio o dan drwydded arbennig.

Mae gwaith wedi dechrau ar lunio achos busnes er mwyn cael cyllid ar gyfer yr ACTC nesaf.

Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (ADSD)

Rydym yn gweithio gydag Uned Ymchwil Data Gweinyddol Llywodraeth Cymru er mwyn rhoi achosion busnes i SYG ar gyfer rhannu data perthnasol o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol, fel gwybodaeth am y Dreth Gyngor. Bydd data ADSD presennol yn cael eu trosglwyddo i Lwyfan e-Ymchwil Diogel y DU Llywodraeth Cymru (UKSeRP) yn y misoedd nesaf. Yn ehangach na dim ond ADSD, mae cynllun wedi'i lunio sy'n cynnwys amserlen arfaethedig i gyflwyno llwyfan UKSeRP, a fydd yn fyw ym mis Ionawr 2020. Mae hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu caniatáu i ymchwilyr gael gafael ar setiau data Llywodraeth Cymru drwy'r llwyfan hwn. Bwriadwn ychwanegu gwybodaeth am ddefnydd ynni, mesuryddion deallus a mesuryddion rhagdalau oddi wrth BEIS ac ymgysylltu â darparwyr tai cymdeithasol yn y misoedd i ddod, gyda'r nod o gael gafael ar ddata rheoli stoc.

Allbynnau ystadegol tai

Mae'r holl ddatganiadau ar gael ar y [wefan Ystadegau ac Ymchwil](#).

Y Grŵp Gwybodaeth Tai (GGT)

Cynhaliwyd cyfarfod GGT ym mis Medi 2019 ar thema 'Datgarboneiddio cartrefi – Pa dystiolaeth sydd gennym ac sydd ei hangen i symud ymlaen?' Mae'r papurau a'r cyflwyniadau ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Cynhelir seminar flynyddol GGT ar 30 Ionawr ar y pwnc lechyd a Thai.

Amcangyfrifon o'r angen a'r galw am dai

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried yr argymhellion o ran yr Angen am Dai yn yr [Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy](#). Ar 21 Tachwedd, daeth tua 50 o staff awdurdodau lleol i weithdy yn y canolbarth. Diben y gweithdy hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i awdurdodau lleol am waith diweddar (gan gynnwys cyhoeddi amcangyfrifon o'r angen am dai ar

lefel ranbarthol), yn ogystal â cheisio adborth a syniadau am brosesau presennol Asesu'r Farchnad Dai Leol, setiau data a chyfyngiadau yn ymwneud â gwaith asesu o'r fath.

Disgwylir cyhoeddi'r amcangyfrifon diweddaraf o'r angen am dai ychwanegol (yn seiliedig ar 2019) ym mis Chwefror 2020.

Gwaith Ystadegau Tai Trawslywodraethol

Ar 17 Medi, cyhoeddodd SYG bedwar cynnyrch ar draws Llywodraeth y DU (erthygl ddadansoddol, adnodd rhyngweithiol, erthygl yn disgrifio mentrau gwella, a blog) yn ymwneud ag ystadegau digartrefedd a chysgu allan. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn rhan o brosiect trawslywodraethol i wella natur gydlynol ystadegau a gynhyrchir ar ddigartrefedd ledled y DU. Gellir cael gafael ar y cynhyrchion drwy'r [blog](#).

Ar 6 Tachwedd 2019, cyhoeddodd SYG ddau adroddiad ar ystadegau tai fforddiadwy fel rhan o raglen waith ledled y DU i wella ystadegau tai a chynllunio:

- (a) [Comparing affordable housing in the UK](#) (Saesneg yn unig) sef erthygl a oedd yn cymharu ystadegau tai fforddiadwy ledled y DU
- (b) [Affordable Housing Statistics in the UK](#) (Saesneg yn unig) sef adolygiad o ddiffiniadau, terminoleg a dichonoldeb cysoni diffiniadau ystadegol tai fforddiadwy.

Ceisir adborth ar y cynhyrchion digartrefedd a thai fforddiadwy – anfonwch sylwadau i gsshel@statistics.gov.uk.

Iechyd

Cyhoeddiadau newydd

Mae amrywiaeth o adroddiadau a data newydd wedi cael eu cyhoeddi:

[Nifer y bobl a gadwyd o dan Adran 135 ac 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl](#)

Rydym wedi dwyn ynghyd nifer o'n [datganiadau gwasanaethau cymdeithasol](#) i greu un datganiad fel bod darlun mwy cydlynol o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Mae'r [blog hwn](#) yn disgrifio pam y gwnaethom y newidiadau hynny.

Yn flaenorol roeddem yn cyhoeddi ystadegau ar famolaeth ac iechyd plant ar wahân. Mae'r rhain bellach yn cael eu [cyhoeddi gyda'i gilydd](#) gan roi ystadegau o gofnodion cynenedigol, genedigaethau ac iechyd plant, gan gynnwys ysmegu yn ystod beichiogrwydd, bwydo ar y fron a phwysau geni plant.

Cyhoeddiadau eraill

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar [wefan Llywodraeth Cymru](#).

Am ragor o wybodaeth e-bostiwch ystadegau.iechyd@llyw.cymru.

Arolwg Cenedlaethol

Cyhoeddwyd y prif ganlyniadau o arolwg 2018-19 ar 18 Mehefin 2019. Mae'r rhain, ynghyd â'r holl fwletinau a gyhoeddwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ar gael ar [wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#).

Rydym wedi cyhoeddi pum bwletin ers y diweddariad chwarterol diwethaf:

- [Defnydd o'r rhyngrwyd a sgiliau digidol](#) – 11 Medi
- [Yfed alcohol](#) – 23 Hydref
- [Newid hinsawdd a gweithredu amgylcheddol](#) – 29 Hydref
- [Cydluniant cymunedol a diogelwch yn yr ardal leol](#) – 20 Tachwedd
- [Democratiaeth leol a mynediad at wasanaethau](#) – 26 Tachwedd

Bwriedir cyhoeddi dau fwletin arall ym mis Rhagfyr:

- Y Gymraeg yn y gweithle – 5 Rhagfyr (a ddaw o dan y diweddariad ar y Gymraeg)
- Gofal plant – 18 Rhagfyr

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol 2019-20 ar hyn o bryd, a bydd y canlyniadau ar gael ym mis Mehefin 2020.

Gellir dod o hyd i'r tablau a'r siartiau sy'n cwmpasu holl bynciau'r arolwg, a blynyddoedd blaenorol, ar ein [Dangosydd canlyniadau](#). Os oes gennych unrhyw gwestiynau, [e-bostiwch ni](#).

Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019

Cyhoeddwyd MALIC 2019 ar 27 Tachwedd 2019, ac rydym wedi diweddarau ein [Hadroddiad Canlyniadau](#), [data StatsCymru](#) a'r [adnodd rhyngweithiol](#). Ymhlith y newidiadau allweddol i'r hyn a gyhoeddwyd mae'r canlynol:

- Dangosyddion newydd ar gyfer iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai a'r amgylchedd ffisegol
- Mwy o gyd-destun ar gyfer yr ychydig ardaloedd mwyaf difreintiedig a nodwyd, a dadansoddiad o'r ardaloedd difreintiedig iawn ers sawl iteriad, yn ein Hadroddiad Canlyniadau
- Gwelliannau i'r ffordd mae'r adnodd rhyngweithiol yn gweithio, gan gynnwys bar chwilio cod post ar bob tudalen, a mwy o fanylion i'w gweld ar fapiau (y gellir eu lawrlwytho bellach)
- Dadansoddiad ar gyfer daearyddiaethau ychwanegol, er enghraifft, rydym wedi ychwanegu profiliau amddifadedd ar gyfer Rhanbarthau Economaidd, a data dangosyddion ar gyfer ardaloedd Etholaethol.

Dadansoddiadau newydd o brofiadau pobl anabl gan SYG

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi [dadansoddiadau newydd](#) (Saesneg yn unig) sy'n dangos profiad pobl anabl o wahanol agweddau ar fywyd yn y DU. Mae'r dadansoddiadau yn cynnwys addysg, tai, cyflogaeth, trosedd, cyfranogiad cymdeithasol, llesiant ac unigrwydd, a bylchau cyflog. Mae hyn yn rhan o'r gwaith a wneir gan SYG i ddiwallu'r angen am ddata o ansawdd da er mwyn llywio gwaith polisi a mesur cynnydd tuag at fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a brofir gan bobl anabl yn y DU. Mae'r erthyglau yn cynnwys rhai amcangyfrifon ar gyfer Cymru, er, mewn rhai achosion, ni ellir edrych ar fathau o namau na dadansoddiadau eraill i Gymru, ac os felly darperir data ar gyfer y DU.

Trafnidiaeth

Rydym wedi cyhoeddi diweddariadau i ystadegau ar [gludiant môr](#), [cludo nwyddau ar ffyrdd](#), [teithio llesol](#), [damweiniau ar y ffordd ac anafusion](#).

Llesiant Cymru

Gwnaethom gyhoeddi adroddiad [Llesiant Cymru 2018-19](#) ym mis Medi. Eleni, gwnaethom ganolbwyntio ar adroddiad byrrach, gan roi mwy o ddiweddariad ar yr hyn a ddysgom dros y flwyddyn ddiwethaf, ac achubwyd ar y cyfle i gyflwyno adroddiad mwy deniadol yn weledol. Croesawn unrhyw adborth ar hyn.

Rydym bob amser yn ystyried ffyrdd o wella'r adroddiad, ac mae deall y ffordd y caiff yr adroddiad ei ddefnyddio yn rhan allweddol o hyn. Felly, yn fuan, byddwn yn dosbarthu dogfen sy'n amlinellu'r ffordd mae eraill yn defnyddio'r adroddiad, yn ein barn ni, a byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym p'un a ydych yn cytuno ai peidio. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi astudiaethau achos byr gennych am y ffordd rydych wedi defnyddio'r adroddiad.

Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus – data agored

Dros yr haf rydym wedi gwneud gwaith i ddarparu data ar gydraddoldeb cyrff cyhoeddus, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Roedd yn braf iawn gweld pa mor gadarnhaol oedd y gwahanol gyrff cyhoeddus wrth weithio gyda ni ar hyn, ac rydym yn falch bod cyfran fawr bellach wedi cyhoeddi'r data hyn yn agored.

Ym mis Medi gwnaethom ddarparu dolenni data agored i gyhoeddiadau dros 30 o gyrff cyhoeddus ar [StatsCymru](#).

Os nad ydych wedi cael cyfle i gwblhau'r ymarfer hwn, byddem yn eich annog i wneud hynny. Dylai dolenni i gyhoeddiadau data agored gael eu cyflwyno i'r tîm Prosiectau Ystadegol Blaenoriaeth Uchel yn y [Ddesg Gwybodaeth Ystadegol](#) gan ddyfynnu "data agored PSED" yn y llinell pwnc.

Y Gymraeg

Cafodd bwletin yn cyflwyno canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 ar [y Gymraeg yn y gweithle](#) ei gyhoeddi ar 5 Rhagfyr 2019. Holwyd siaradwyr Cymraeg cyflogedig am eu defnydd o'r iaith gyda chydweithwyr a phobl o'r tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u rôl. Roedd yr arolwg hefyd yn gofyn a oedd eu cyflogwr yn cynnig unrhyw gyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg.

Gwybodaeth ystadegol arall

Mae [Deall Lleoedd Cymru](#) yn wefan ddwyieithog newydd, a reolir gan y Sefydliad Materion Cymreig, sy'n rhannu gwybodaeth am economi, cyfansoddiad demograffig a gwasanaethau lleol dros 300 o leoedd yng Nghymru, mewn fformat cyflym a hawdd.

Bydd yr ystadegau yn darparu gwybodaeth am ystod eang o bynciau, gan gynnwys nifer y llefydd mewn ysgolion, y siopau a'r elusennau yn yr ardal, swyddi, pellteroedd cymudo, hunaniaeth genedlaethol, a nifer y siaradwyr Cymraeg.

Tra bod gwefannau data eraill yn cyflwyno gwybodaeth ar lefel awdurdod lleol, mae Deall Lleoedd Cymru yn galluogi pobl i ddadansoddi ystadegau pob man yng Nghymru sydd â mwy na 2,000 o drigolion.

Manylion cyswllt ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: desq.ystadegau@llyw.cymru

Ffôn: 03000 255050

Pwnc-benodol

[Cysylltiadau ar gyfer ystadegau](#)

Twitter 

[YstadegauCymru](#)

Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

[Newyddion a hysbysiadau](#)

Ymholiadau gweinyddol

E-bost: gweinydduggd@llyw.cymru